

Defnyddio llechi yn ystod gweithgarwch cofrestru etholiadol

Ystyriaethau allweddol

- Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymryd camau penodedig i gysylltu ag unrhyw rai nad ydynt yn ymateb i Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi (HEF), gan gynnwys dosbarthu dau nodyn atgoffa ac ymweld â'r eiddo yn bersonol lle bo angen.
- Mae angen anfon Gwahoddiad i Gofrestru (ITR) at unrhyw etholwyr newydd posibl (er enghraifft, pan fo enw wedi'i ychwanegu at HEF a ddychwelwyd) ac mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymryd camau penodedig i gysylltu ag unrhyw rai nad ydynt yn ymateb i ITR, gan gynnwys dosbarthu dau nodyn atgoffa ac ymweld â'r eiddo yn bersonol lle bo angen. Mae'r broses hon yn parhau drwy gydol y flwyddyn.
- Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhoi llechi electronig i ganfaswyr er mwyn helpu i ateb yr heriau hyn.

Buddiannau posibl

- Ceisiadau papur yn lleihau ac, o ganlyniad, yr amser prosesu
- Mae symleiddio prosesau HEF ac ITR ar garreg y drws yn arwain at lai o gostau postio gan nad oes angen postio ITR pan fo trigolion yn gwneud cais i gofrestru ar-lein
- Monitro gweithgarwch canfasio mewn amser real
- Diogelwch data yn gwella – dim perygl o golli ffurflenni sydd wedi'u cwblhau
- Gellir defnyddio llechi drwy gydol y flwyddyn
- Cyfradd ymateb uwch drwy ganfasio personol
- Arbedion parhaus sylweddol sy'n golygu y gall llechi ddod yn niwtral o ran cost yn gyflym (o ganlyniad i lai o gostau postio, prosesu ac argraffu)
- Buddiannau o ran iechyd a diogelwch a buddiannau o ran adnoddau dynol, gan fod modd olrhain y rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain

Profiadau cyrff eraill

- Roedd defnyddio llechi yn creu argraff fwy proffesiynol ar garreg y drws ac roedd pobl yn fwy tebygol o roi gwybodaeth o ganlyniad i hynny (**Cyngor Dosbarth Canol Dyfnaint**)
- Mae trigolion yn hapusach ac mae ganddynt lai o gwynion. Maent yn fwy parod i roi gwybodaeth, gan gynnwys rhifau Yswiriant Gwladol, o gymharu â ffurflenni papur (**Bwrdeistref Camden, Llundain**)
- Y raddfa ymateb yn cynyddu gyda gweithgarwch canfasio personol (**Bwrdeistref Tower Hamlets, Llundain**)
- Roedd ap canfasio symudol a ddarparwyd gan ddarparwr y feddalwedd wedi arwain at integreiddio di-dor ac wedi lleihau amser prosesu i'r eithaf (**Cyngor Dosbarth Wycombe**)



Mwy o effeithlonrwydd a goruchwyliaeth

Mae **Cyngor Dinas Bryste** wedi gweld bod defnyddio llechi wedi cael effaith gadarnhaol ar ganfaswyr, gyda llai yn rhoi'r gorau iddi nag o'r blaen. Mae'r llechi yn golygu y gellir gwneud gwaith monitro amser real ym Mryste, sy'n rhoi trosolwg o waith y canfaswyr. Caiff y rhestrau eiddo/unigolion sydd heb ymateb eu diweddarau'n 'fyw' sy'n golygu nad yw canfaswyr yn ymweld â chartrefi/unigolion yn ddiangen. Os bydd problem yn codi, gall

staff y swyddfa fewngofnodi i'r llechen a gweld yr un sgrîn â'r canfasiwr ei hun, a gallant roi cyngor yn unol â hynny.



Mwy o gyswilt â thrigolion

Mae **Cyngor Bwrdeistref Solihull** o'r farn bod defnyddio llechi yn galluogi canfaswyr i dreulio mwy o amser yn cyfathrebu â deiliaid tai ar garreg y drws. Gallant fynd o ddrws i ddrws yn haws ac yn gyflymach gan nad oes angen iddynt gario llawer o ffurflenni papur na'u dychwelyd i'r swyddfa ar ôl iddynt gael eu llenwi. Gellir neilltuo nifer uwch o eiddo i ganfaswyr ac felly, yn y pen draw, gellid lleihau nifer y canfaswyr sydd eu hangen. Un o'r buddiannau eraill a nodwyd gan Solihull oedd diogelwch i'r rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain gan fod y cyfleuster GPS ar y llechi yn golygu bod modd gwybod ble mae canfaswyr bob amser.

Heriau

- Mae'n debygol y bydd cost brynu gychwynnol; ond gellid gwrthbwysu'r gost hon drwy arbedion a wneir yn sgil defnyddio'r llechi mor gynnar â'r flwyddyn gyntaf
- Mewn ardaloedd gwledig, gall problemau godi o ran cysylltu â'r rhyngwyd ar ddyfeisiau symudol
- Bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar staff mewn perthynas â'r cyfarpar a'r prosesau newydd
- Os bydd canfaswyr yn annog pobl i gwblhau HEF drwy eich porth ar-lein neu i wneud cais i gofrestru drwy wefan gov.uk ar eu llechen, mae'n bosibl na fydd system eich meddalwedd rheoli etholiadol (EMS) yn cofnodi eu bod wedi gwneud hynny o ganlyniad i'r ymweliad personol

Profiadau cyrff eraill



Goresgyn y costau

Mae angen achos busnes cadarn i gyfiawnhau'r gwariant cychwynnol i brynu'r llechi. Mae **Cyngor Dinas Bryste a Bwrdeistref Tower Hamlets, Llundain** wedi gwneud rhywfaint o waith i ddadansoddi'r arbedion cost o gymharu â'r costau caffael, ac maent yn hapus i rannu'r gwaith hwn.¹

Er mwyn helpu i ddatblygu achos busnes, gallech ystyried y canlynol:

- Tynnu sylw at yr arbedion/effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan gynghorau eraill. Er enghraifft, gweler [astudiaeth achos Tower Hamlets](#) o'u cynllun i dreialu llechi yn 2015. *Mae manylion yr arbedion pellach a gyflawnwyd ganddynt drwy ymestyn y cynllun peilot hwn i'w holl ganfaswyr yn 2016 ar gael ar gais.*
- Cynnal cynllun peilot bach mewn rhan o'ch ardal gofrestru. Bydd hyn yn rhoi cymhariaeth uniongyrchol â ffurflenni papur ac yn eich galluogi i roi darlun gwell o'r arbedion effeithlonrwydd.
- Defnyddio'r llechi ar gyfer gwasanaethau etholiadol eraill, er enghraifft, gan arolygwyr

¹I gysylltu â Bryste, e-bostiwr - electoral.services@bristol.gov.uk

I gysylltu â Tower Hamlets, e-bostiwr - electoralservices@towerhamlets.gov.uk

gorsafoedd pleidleisio.

- Ystyried rhannu dyfeisiau a chostau â gwasanaethau eraill o fewn y cyngor a all ddefnyddio llechi hefyd.
- Ceisio cael cynrychiolydd etholedig uwch i weithio fel hyrwyddwr dros eich achos. Gall sicrhau cefnogaeth aelod o'r Cabinet/Gweithrediaeth cyn cyflwyno eich achos busnes eich helpu i gael cytundeb y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.



Problemau cysylltedd

Mewn ardaloedd lle mae'n anodd cysylltu â'r rhyngwyd ar ddyfeisiau symudol, efallai yr hoffech ystyried defnyddio'r rhaglen 'all-lein' os yw'r nodwedd honno ar gael. Bydd hyn yn galluogi canfaswyr i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt a'i lanlwytho i'ch EMS pan fydd cysylltiad ar gael.



Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn gweithio'n well mewn grwpiau llai, ac mae angen i'r canfasiwr fod yn barod i ddysgu a defnyddio'r dechnoleg (**Bwrdeistref Camden, Llundain**)

Adnoddau



Mae [Rhan 3 – Canfasio](#) yn rhoi arweiniad cyffredinol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar reoli'r broses ganfasio.

Am wybodaeth am lwyddiant Bwrdeistref Tower Hamlets yn Llundain wrth ddefnyddio llechi, gweler yr astudiaeth achos: ['Tower Hamlets: Defnyddio llechi wrth ganfasio'](#).

Mae gwybodaeth am gynllunio gwaith canfasio personol, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio canfaswyr, ar gael yn ein ['Rhestr o gwestiynau i lywio gwaith cynllunio canfasiad'](#).

Cysylltu â ni

Os ydych wedi rhoi llechi i ganfaswyr, hoffem glywed am eich profiadau yn fawr iawn. Cysylltwch â'ch [tîm lleol yn y Comisiwn](#). Fel arall, os hoffech siarad yn uniongyrchol ag unrhyw rai o'r awdurdodau a enwir yn yr adnodd hwn, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i'ch helpu yn hyn o beth.